

**COFNODION 'HEB EU CADARNHAU' O GYFARFOD 'A GYNHALIWDYD YN
BREIFAT' O FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG
(CTMUHB),
A GYNHALIWDYD DDYDD IAU 26 TACHWEDD 2020,
CYFARFOD AR LEIN- MICROSOFT TEAMS**

YN BRESENNOL:

Marcus Longley	Cadeirydd / Aelod Annibynnol
Maria Thomas	Is-gadeirydd / Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
Paul Griffiths	Aelod Annibynnol
Philip White	Aelod Annibynnol
Ian Wells	Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol
Keiron Montague	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Gio Isingrini	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
Paul Mears	Y Prif Weithredwr
Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol / Dirprwy Brif Weithredwr
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Dros Dro)
Greg Dix	Greg Dix, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Steve Webster	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Clare Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a TGCh (Dros Dro)
Alan Lawrie	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau

ERAILL YN Y CYFARFOD:

Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
John Murray	Deloitte
David Jenkins	Cynghorydd Annibynnol i'r Cadeirydd
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg (Ysgrifennydd)

1.	MATERION RHAGARWEINIOL
1.1	Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
1.2	Ymddiheuriadau am Absenoldebau CAFWDYD ymddiheuriadau gan Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd (Dros Dro) a Gio Isingrini, Aelod Cyswllt o'r Bwrdd.
1.3	Datganiadau o fuddiannau Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.
2.	PRIF AGENDA
2.1	Y diweddaraf ar Gyllid / Cyllideb 2020-2021 Cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan S. Webster a hysbysodd y Bwrdd o'r cwestiynau cyllidol a godwyd o ran Cynllun Chwarter 3/4 2020/2021. Roedd y diweddariad yn ystyried incwm gan Lywodraeth Cymru, y berthynas â'r cynlluniau diweddaraf o ran adnoddau hysbys a'r amcangyfrifon posib parthed y fantolen diwedd blwyddyn. Nodwyd bod cyfarfod ag Archwilio Cymru wedi ei drefnu ar gyfer 2 Rhagfyr 2020, er mwyn trafod y cynllun ariannol ar gyfer 2020/2021. Nodwyd hefyd y bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei hadrodd i'r Bwrdd os bydd angen yn dilyn y cyfarfod, yn benodol er mwyn nodi p'un a fydd angen cyfarfod arall o'r Bwrdd ai peidio cyn mis Ionawr 2021. PENDERFYNWYD: • NODI'R diweddariad parthed Cynllun Ariannol 2020-2021. • CEFNOGI trefnu cyfarfod arall o'r Bwrdd cyn mis Ionawr 2021 os bydd angen.
2.2	Y diweddaraf ynghylch yr Adolygiadau Marwolaethau Amenedigol



Dywedodd N Lyons fod pob marwolaeth newyddenedigol yn cael ei hadolygu gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth ar gyfer Marwolaethau Amenedigol (PMRT) a bod ymrwymiad wedi ei roi ym mis Ionawr 2020 y byddai'r Uned Babanod Newydd-anedig yn adolygu pob marwolaeth newyddenedigol er 2018 gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth hwn.

Rhoddodd N Lyons y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch adborth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei dderbyn yn dilyn yr adolygiad hwn.

Yn dilyn sesiwn briffio, trafododd N Lyons y camau sy'n cael eu cymryd gan y Bwrdd Iechyd, a chadarnhaodd fod yr holl waith adrodd ac ymgysylltu angenrheidiol wrthi'n cael ei wneud. Fe'i nodwyd bod P Mears wedi penodi N Lyons yn Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer materion newyddenedigol, a hefyd ar gyfer y camau gweithredu yn sgil rhaglen IMSOP.

Gan gydnabod difrifoldeb y materion dan sylw, gofynnodd y Bwrdd am sesiwn briffio rheolaidd ynghylch cynnydd.

Sicrhodd N Lyons Aelodau'r Bwrdd nad oedd angen gwneud dim ar frys o ran diogelwch, a bod bwriad i adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ynghylch cynnydd ar gamau gweithredu cychwynnol ym mis Rhagfyr 2020.

PENDERFYNWYD:

- **NODI'R** sesiwn briffio a'r camau gweithredu cychwynnol sy'n cael eu cymryd.